Croeso i Ddosbarth yr Harbwr

Dewch i gael cip ar beth sy'n digwydd yn ein dosbarth tymor hyn:

Eleni, mae yna 27 o blant brwdfrydig yn ein dosbarth; 20 o flwyddyn 3 a 7 o flwyddyn 4. Ein hathrawes dosbarth yw Mrs Hughes / Miss Jones ac ein cynorthwyydd yw Mr Evans.

Iaith

Byddwn yn canolbwyntio ar ysgrifennu nifer o destunau gwahanol yn ystod y flwyddyn. Rhaid sicrhau bod eich plentyn yn darllen rhywbeth BOB NOS. Mae llyfrau darllen Saesneg a Chymraeg yn cael eu newid drwy'r wythnos felly mae'n hanfodol bod eich plentyn yn cofio dod â'u llyfrau a chofnod darllen i'r ysgol bob dydd.

Rhifedd

Byddwn yn datblygu sgiliau rhif, siâp, trin data a rhesymu yn ystod flwyddyn mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Ceisiwch sicrhau bod eich plentyn yn parhau i ddysgu tablau trwy ddefnyddio TT Rock stars neu J2blast ar HWB.

Thema

Ein thema y tymor hwn yw 'Asiantaethau Teithio'.

Bydd ein thema yn canolbwyntio ar Daearyddiaeth ac yn rhoi cyfle i'r disgyblion i ddysgu am dwristiaeth ac yr effaith gaiff hyn ar bobl a llefydd.

Ymarfer Corff

Bydd ymarfer corff ar Ddydd Gwener. Mae angen gwisgo dillad addas ar gyfer y sesiwn yma. Bydd angen trowsus ymarfer corff hir / siorts du, crys-t lliwiau tŷ ac esgidiau rhedeg.

Tasgau Dysgu Adref

Mi fydd tasgau dysgu adref yn cael eu gosod ar Ddydd Gwener a disgwylir i'r disgyblion eu cyflawni erbyn Dydd Mercher.